# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 09fed o Ionawr, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isaf, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Gethin Jones **(GJ)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Emlyn Williams **(EW)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Sara Williams **(SW);** Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Ynyr Ellis **(YE).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2023** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan OHW gyda LF yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a) <u>MEINCIAU LLITHFAEN A PHISTYLL</u>**<br>LLITHFAEN - Y clerc i gadarnhau costau mainc newydd erbyn y cyfarfod nesaf<br>PISTYLL - Nid oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn, y clerc i ddilyn y mater<br><br>**b) <u>OR/SW– GORDYFIANT</u>**<br>Y clerc i ail adrodd cwynion am ordyfiant ger:<br>• Y Ganolfan , Llithfaen<br>• Gordyfiant o'r siop i arwydd 20 yn Llithfaen<br>• Gordyfiant rhwng Gwelfor ac Arosfa, Llithfaen<br><br>**c) <u>SP - DWR YN RHEDEG I'R PENTREF I LAWR Y LON O NANT</u>**<br>Adroddodd yr aelodau bod rhan o'r gwaith wedi ei ddarparu ond nid yn ddigonol.<br>Roedd y gwlia'u wedi ei glanhau ond nid oedd gwir natur y broblem wedi cael sylw. Esboniodd SP bod rhediad y dŵr yn wahanol ers lledu'r lon a bod y gratin bellach mewn lleoliad anghywir i arbed y dŵr redeg. Roedd hefyd yn argymell bod y beipen sy'n rhedeg o dan lon yn debygol wedi llenwi.<br><br>**d) <u>LF – TWLL YN Y FFORDD OCHOR ISAF I'R CAE CHWARAE</u>**<br>Y gwaith wedi ei gwblhau<br><br>**e) <u>GJLJ – TWLL YN Y FFORDD AR FIN CYRRAEDD Y SAFLE CARFFOSIAETH 100 LLATH O LON RHOSYDD YN LLITHFAEN</u>**<br>Wedi ei wneud ond wedi ail ogor – angen ei wneud yn iawn<br><br>f) **<u>OH – CAIS AM SAFLE BWS OCHOR ARALL Y LON YM MHISTYLL</u>**<br>Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Gweler 4 a) |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais:** C23/0999/43/LL - Canolfan Cymunedol Llithfaen, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NW<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Gwaith cynnal a chadw allanol ynghyd ac addasiadau gan gynnwys dymchwel simneiau, ail doi, ail rendro, ail agor agoriadau ffenestri blaenorol a leihawyd, gosod ffenestri a drysau newydd<br>Cefnogi'r cais |
| **8.** | **MAINC LON CARNGUWCH** |
| | Cytunodd yr aelodau ddisgwyl tan y cyfarfod nesaf am gostau manwl |
| **9.** | **SAFLE BWS LLITHFAEN** |
| | Nid oedd Peiriannydd y Cyngor Sir yn cytuno gyda sefydlu'r safle bws newydd yn y lleoliad argymhellwyd gan yr aelodau gan ei fod am greu'r un broblem sef diffyg gweledEdd gyrwyr yn dod o gyffordd Stad Awelfryn.<br>Credodd mai'r lleoliad mwyaf priodol yw 20m o'r lleoliad presennol yn mynd am gyfeiriad Nefyn. Bydd rhaid adolygu'r lleoliad yn ffisegol cyn gwneud penderfyniad terfynol.<br>Y clerc i wneud cais am gyfarfod safle gyda JG ac EW |
| **10.** | **GÔR YRRU DRWY LITHFAEN** |
| | SW - Cwynion am gôr yrru drwy'r pentref. Rhai yn honni mai trigolion y pentref yw'r rhai sy'n goryrru.<br>GJL hefyd yn adrodd am broblemau cyson gan drigolion lleol yn y bore.<br>Adroddodd SP am seibiant i gynnal y gorchwylio oherwydd tywydd garw. Adroddodd ymhellach bydd y gwirfoddolwyr yn cynnal 4 sesiwn gyda'r gwn hyd at Ebrill ac wedyn cynnig y data i'r Cyngor Sir. |
| **11.** | **PROBLEM PARCIO O FLAEN MORIAH TERRACE** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth mewn ymateb i'r gwyn gan yr Uwch Beiriannydd Traffig yn adrodd -<br>Yn anffodus, os oes cerbydau yn parcio ar rhannau di-rwystredig o'r briffordd ac yn achosi rhwystr neu bryder diogelwch nid oes gan y Cyngor pwerau i orfodi. Felly o ganlyniad mae angen cyfeirio unrhyw faterion parcio sy'n arwain at leoli cerbyd mewn man peryglus ar y briffordd (sy'n cynnwys llwybrau troed) at Wasanaeth yr Heddlu. Mae lleoli cerbyd mewn man peryglus yn groes i Adran 22 o Ddeddf Traffig Ffyrdd. Yr unig bwerau gorfodaeth sydd gan y Cyngor yw pan fydd gyrwyr yn cyflawni troseddau parcio pan fydd gennym gyfyngiadau parcio yn ei lle. Os yw'r fynedfa i eiddo yn cael ei rhwystro neu mae cerbyd wedi parcio yn weddol agos i gyffordd (o fewn tua 10 medr) mae hyn yn groes i reoliad 103 o Reoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnyddio) 1986. Mae Rheoliad 103 yn creu'r drosedd na ni chaiff unrhyw un sydd mewn gofal cerbyd modur neu drelar achosi na chaniatáu i'r cerbyd i sefyll ar ffordd ac achosi unrhyw rwystr diangen.<br><br>I gadarnhau'r uchod, yr unig bwerau gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor yw pan mae gyrwyr yn cyflawni troseddau parcio pan fo gennym gyfyngiadau parcio mewn lle.<br><br>Yn dilyn trafodaeth bellach cytunwyd i gadw golwg ar y mater. |
| **12.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Adroddodd SP bydd y gwaith ar y ganolfan yn cychwyn ar y 18.01.24. Gofynnodd am wirfoddolwyr i helpu symud bocsys. |

| | |
|---|---|
| **13.** | **MATERION LLEOL** |

a) **MYNWENT CAPEL ISAF**
I'w drafod eto SP am drefnu i'r capel gysylltu â JG

**b) OW - ARWYDD LON GROES**
Adroddodd OW nad oedd unrhyw waith wedi ei wneud i ail leoli'r postyn er gwaethaf derbyn addewid. Y clerc i ddilyn y mater

**c) SP – CRONFA PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD**
Adroddodd SP am gronfa i sefydlu perllan yn y gymuned. Cytunodd SP lunio paragraph a nodi'r safleoedd ar fap.

**d) LLWYBR – I DRAETH PISTYLL ANGEN SYLW**
Y clerc i adrodd i'r National Trust sef y perchnogion.

| | |
|---|---|
| **14.** | **APÊL DIFFIBLWR I BISTYLL** |

Gwaith ar droed i sefydlu pwyllgor

| | |
|---|---|
| **15.** | **HYFFORDDIANT** |

Yr aelodau i ddiweddaru'r clerc o'i dymuniadau

| | |
|---|---|
| **16.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |

**a) MENTER IAITH GWYNEDD- GWEITHDY BOTWNNOG CHWEFROR Y 3YDD**

**b) ADRODDIAD GWYRDDNI PEN LLŶN**

c) **DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS YNG NGOGLEDD CYMRU**

| | |
|---|---|
| **17.** | **CYLLID** |

**a) CYSONIAD A RHAGAMCANION 2023/24**
Cymeradwywyd y cysoniad

**b) CYFRIFLEN BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Rhagfyr i 31 o Rhagfyr 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 17,319.02** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ 300.05 |
| Balans Cau | = | **£ 17,018.97** |

**CYFRIF CADW - 07 Dachwedd i 6ef o Ragfyr 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 2,690.99 |
| Derbyniadau | + | £ 12.98 |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,703.97** |
| | = | **£ 19,722.94** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Un Llais Cymru | **201293** | £ 38.00 |
| - | | | |
| | | = | **£ 38.00** |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog a threuliau'r clerc | 201292 | £ 291.35 |
| | = | **£ 291.35** |

| | |
|---|---|
| **18.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 13eg o Chwefror – 7 y.h – Capel Isaf, Llithfaen |